OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 629 (Cy.87)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Gwella'r Fenni 1854 (Diddymu) 2012

Gwnaed - - - -	*28 Chwefror 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*2 Mawrth 2012*
Yn dod i rym - -	*26 Mawrth 2012*

Ymddengys i Weinidogion Cymru bod adran 28 o Ddeddf Gwella'r Fenni 1854(**1**), sef darpariaeth statudol leol at ddibenion adrannau 57 a 58 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994(**2**), bellach yn anarferedig ac yn ddianghenraid ac wedi ei disodli'n helaeth gan Ddeddf Bwyd 1984(**3**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**4**).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Gwella'r Fenni 1854 (Diddymu) 2012.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Mawrth 2012.

Diddymu

2. Mae adran 28 (y comisiynwyr yn cael ffurfio ac adeiladu marchnad wartheg a lladd-dai) o Ddeddf Gwella'r Fenni 1854 ("Deddf 1854") wedi ei diddymu (gan gynnwys y graddau y mae adran 26 (ymgorffori Deddf Cymalau Marchnadoedd a Ffeiriau 1847(**5**)) o Ddeddf 1854 yn cael effaith mewn perthynas ag adran 28).

(**1**) 1854 p.xlix. Diwygiwyd Deddf 1854 gan Ddeddf Gwella'r Fenni 1860 (p. xxxvii).
(**2**) 1994 p.19.
(**3**) 1984 p.30. *Gweler* adrannau 50 a 53.
(**4**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S 1999/672) ac maent bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**5**) 1847 p.14.